

Ofwat
Briff Penodiad
Penodi Uwch
Gyfarwyddwr –
Adolygu Prisiau

Ionawr 2023

Cyfeiriad: QJUR



Cyflwyniad gan David Black, Prif Weithredwr

Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff diogel a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer ein bywydau o ddydd i ddydd, ein lles, a'n byd naturiol.

Fel rheoleiddwr economaidd cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ein rôl yw galluogi, cymell a dwyn cwmnïau i gyfrif am ddarparu'r gorau oll i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn goruchwyllo'r marchnadoedd yn y sector dŵr i sicrhau eu bod yn gweithio i gwsmeriaid.



Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi gosod tri nod i'n hunain. Sef:

- trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr;
- gyrru cwmnïau dŵr i ddatrys yr heriau hirdymor trwy fwy o gydweithio a phartneriaethau; ac
- i gwmnïau dŵr ddarparu mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol fel rhan o gyflwyno i gwsmeriaid.

Mae'r rôl hon yn rôl arweiniol allweddol yn Ofwat, gan arwain ein hadolygiad prisiau proffil uchel presennol wrth iddo ddechrau'r cyfnod cyflawni ar ddiwedd 2023 ac adolygiadau prisiau yn y dyfodol. Mae'r adolygiad prisiau hwn yn hollbwysig i'r sector wrth i gwmnïau wynebu'r her o drawsnewid eu perfformiad amgylcheddol mewn cyfnod o heriau fforddiadwyedd digynsail i gwsmeriaid.

Rydym yn uchelgeisiol am y dyfodol ac yn chwilio am bobl a all ein helpu i gyflawni newid parhaol, er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno ag Ofwat. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

David Black
Prif Weithredwr

Gwybodaeth am Ofwat

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ein rôl yw helpu'r sector i feithrin ymddiriedaeth a hyder gyda chwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach: cadw dŵr i lifo, biliau'n fforddiadwy a helpu i sicrhau iechyd ein hafonydd a'n dyfrffyrdd. Rydym yn ymdrechu'n galed i wella perfformiad cwmnïau dŵr o ddydd i ddydd ar gyfer cwsmeriaid, gan gynnwys ar ollyngiadau, llifogydd carthffosydd a gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym yn gyrru'r sector i gymryd golwg tymor hwy ac i gymryd camau nawr i warchod a gwella'r amgylchedd, gan ddefnyddio arloesedd digidol a data a gwneud yn siŵr bod ein cyflenwadau dŵr yn ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy ein hadolygiadau prisiau pum mlynedd rydym yn goruchwyllo biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad yn y sector dŵr ledled Cymru a Lloegr.

Mae ein strategaeth Amser i Weithredu yn nodi ein huchelgais ar gyfer y sector dŵr a'r rôl rydym yn ei chwarae wrth ei gyflawni. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu ein huchelgais, ein hymrwymiad i ddysgu gweithredu gyda phwrpas ac uniondeb, gan wella'n barhaus fel ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i wella bywyd trwy ddŵr.

Ein nodau strategol, a gymerwyd o'n strategaeth, Amser i Weithredu Gyda'n Gilydd:



Mae ein gwaith yn uchel ei broffil ac yn symud yn gyflym, o fewn amgylchedd deinamig ac ystyryth. Bydd y gwaith y byddwch yn ymwneud ag ef bob dydd yn ymwneud â'n helpu ni i gyflawni ein strategaeth, ein helpu i fod y rheolydd yr ydym am fod a helpu'r sector i gyflawni canlyniadau sydd o bwys i gwsmeriaid a chymdeithas. Mae ein strategaeth yn nodi'r rôl y bydd Ofwat yn ei chwarae. Byddwn yn addasu, yn hyderus, yn gweithredu gyda phwrpas ac uniondeb ac yn gwella'n barhaus fel ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i wella bywyd trwy ddŵr.

Pam ymuno ag Ofwat?

Mae Ofwat yn sefydliad sydd â phwrpas datblygedig. Rydym yn flaengar, yn greadigol, yn arloesol ac yn uchelgeisiol. Rydym yn gwthio'r ffiniau yn gyson ac yn croesawu ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn annog ymreolaeth, cydweithredu ac arloesi yn frwd ac mae diwylliant o ymddiriedaeth, hyblygrwydd a pharch. Rydym am i bawb gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith wrth ystyried yr effaith ar eraill. Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym yn mynd ati i groesawu ffyrdd newydd o weithio ac i roi'r rhyddid i'n pobl weithio'n gallach, gan sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein pobl yn teimlo'n gysylltiedig a chael eu gwerthfawrogi, a bod pob llais yn bwysig. Byddwch yn cael lle a chefnogaeth i lunio eich dyfodol tra'n cymryd mwy o reolaeth dros eich twf a'ch datblygiad eich hun.

Cyn pandemig Covid-19 ni oedd y sefydliad Gwasanaeth Sifil cyntaf i ennill statws Gweithio'n Gallach. Rydym wedi datblygu hyn ymhellach trwy ein gwaith hybrid yn ystod y pandemig ac wedi ennill gwobrau am ein ffyrdd o weithio wrth i ni dreulio mwy o amser yn bersonol eto.



Ein gwerthoedd

Mae ein holl waith wedi'i danategu gan ein gwerthoedd SAILOR sydd wedi'u hen sefydlu ac wedi'u hymgorffori ym mhopeth a wnawn. Wedi'u hyrwyddo'n frwd gan bawb, maent yn nodi sut yr ydym yn ymddwyn a'r hyn yr ydym yn anelu ato fel sefydliad.

We are Ofwat

We aspire to act in line with our values in everything we do



Ein diwylliant, ein pobl

Wedi'n hysgogi gan ein gwerthoedd SAILOR, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant cynhwysol lle gall ein pobl ddod â'u hunain i'r gwaith yn llwyr, lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal, a'u grymuso i ffynnu. Gyda'n gilydd gallwn gyflawni ein gweledigaeth o wella bywyd trwy ddŵr.



Ein pobl yw calon ac enaid Ofwat, ac mae ein Strategaeth Pobl yn uchelgeisiol ac wedi'i gwreiddio'n dda. Yn ein harolwg pobl blynyddol 2022, fe wnaethom berfformio'n well na meincnodau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (GS) mewn 9 o 10 maes. Mae ein sgôr Mynegai PERMA yn 74% sy'n mesur sut mae pobl yn ffynnu yn y gwaith ac mae'n seiliedig ar y pum dimensiwn: emosiwn cadarnhaol, ymgysylltu, perthnasoedd, ystyr a chyflawniad.

Mae gennym sgôr ymgysylltu o 66% a sgôr o 85% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg, sydd 4% yn uwch na'r gyfartaledd GS. Mae bod yn atebol ac wedi'u grymuso yn rhan o'n ffordd o weithio, gyda 91% o bobl â diddordeb yn eu gwaith ac 89% ohonynt yn cytuno bod ganddynt ddewis wrth benderfynu sut i wneud eu gwaith.

I gyflawni hyn, mae ein strategaeth pobl yn seiliedig ar bum thema a grynhair yma:



Yn sgil ein hail-achrediad Buddsoddi mewn Pobl allanol diweddar, symudon ni o safonol i arian. Ein nod yw dod yn fwy amrywiol a chynhwysol: gan adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Ein gweledigaeth yw trawsnewid Ofwat o fod yn lle gwych i weithio ynddo i Le Gwych i Fod. Rydym yn falch o'r daith yr ydym wedi'i gwneud hyd yn

hyn ac yn edrych i adeiladu ar ein cynnydd i wneud Ofwat yn lle gwell fyth i weithio, lle gall pawb lwyddo.

Y rôl

Bydd yr Uwch Gyfarwyddwr Adolygu Prisiau yn aelod allweddol o'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ac yn arwain y Clwstwr Adolygiadau Prisiau (PR). Mae'r Clwstwr yn gyfrifol am adolygiadau prisiau ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff monopoli gan gynnwys cyflawni'r Adolygiad Prisiau nesaf (PR24) a dal cwmnïau i gyfrif am gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed yn y Rheoli Prisiau diwethaf (PR19). Bydd hefyd yn datblygu'r dull o adolygu prisiau yn y dyfodol a'r ffordd y cânt eu darparu.

Gellir penodi'r Uwch Gyfarwyddwr ar gyfer Adolygu Prisiau i ymuno â bwrdd Ofwat.

Rydym newydd gyhoeddi ein Methodoleg Derfynol ar gyfer PR24. Mae cwmnïau bellach yn cynhyrchu eu cynlluniau busnes ar gyfer 2025-30. Byddwn yn craffu ar y cynlluniau hyn i wneud yn siŵr bod pob cwmni'n ymestyn ei hun i sicrhau'r canlyniadau gorau, am gost y gall pobl ei fforddio. Byddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol ar sut mae'n rhaid i'r cynlluniau hynny gyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd ym mis Rhagfyr 2024. O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector, mae disgwyliadau ar gyfer PR24 yn uchel a'n huchelgeisiau yw y bydd yr adolygiad prisiau yn cyflawni pedwar uchelgais allweddol:

- mwy o ffocws ar y tymor hir;
- mwy o werth amgylcheddol a chymdeithasol;
- adlewyrchu dealltwriaeth gliriach o gwsmeriaid a chymunedau; ac
- ysgogi gwelliannau drwy effeithlonrwydd ac arloesi

Bydd y Clwstwr Adolygu Prisiau yn cynnwys hyd at 82 o aelodau tîm gydag arbenigwyr rheoleiddio ychwanegol o Bartner Cyflawni yr ydym yn y broses o'u penodi ar hyn o bryd. Mae hwn yn waith heriol, a byddwch yn allweddol i sicrhau bod y tîm yn parhau i arloesi, cydweithio a gweithio'n hyblyg i gefnogi lles pawb a chyflawni'r canlyniadau gorau.

Fel Cyfarwyddwr Bwrdd ac aelod o'r UDA, byddwch yn helpu i osod cyfeiriad strategol y sefydliad gyda rôl ychwanegol i lywio strategaeth os cawsoch eich penodi i'r Bwrdd hefyd.

Amcanion allweddol

Gan adrodd i'r Prif Weithredwr bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Darparu arweiniad effeithiol, cryf ac ysbrydoledig i sicrhau canlyniadau gwych i gwsmeriaid a'r amgylchedd drwy'r adolygiad prisiau. Byddwch yn arwain y Clwstwr Adolygu Prisiau i gyflawni PR24 ac adolygiadau prisiau yn y dyfodol i sicrhau bod y sector yn cael ei herio i gyrraedd targedau gwasanaeth a chyflenwi ymestynnol a bod ganddo lwfansau cost priodol a'r cydbwysedd cywir o risg ac elw i gyflawni'n effeithlon ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Bydd y Clwstwr hefyd yn dwyn cwmnïau i gyfrif am yr ymrwymïadau a wnaed ganddynt yn yr adolygiad prisiau blaenorol (PR19). Bydd y Clwstwr yn gyfrifol am ddatblygu dull o adolygu prisiau yn y dyfodol a'u darparu.
- Ysbrydoli a galluogi tîm sylweddol o staff mewnol Ofwat ac arbenigwyr rheoleiddio ychwanegol o'n Partner Darparu i gyflawni yn unol â'n gwerthoedd SAILOR.
- Hyrwyddo ein gwerthoedd SAILOR a gweithio ochr yn ochr ag aelodau'r UDA gan gefnogi'r Prif Weithredwr i arwain Ofwat. Pe baech yn cael eich penodi i'r Bwrdd, byddech hefyd yn helpu i osod cyfeiriad strategol Ofwat fel aelod gweithredol o'r Bwrdd.
- Cydweithio'n effeithiol â meysydd polisi eraill o fewn Ofwat i sicrhau aliniad ein dull o gyflawni ein strategaeth ar draws yr adolygiad prisiau a gwaith cysylltiedig, e.e. ar yr amgylchedd, cynllunio adnoddau dŵr a phrosiectau mawr, neu orfodi.
- Cynnal ymgysylltiad allanol cryf ac effeithiol gyda'n rhanddeiliaid a'r sector rydym yn ei reoleiddio wrth i ni gyflawni'r Adolygiad Prisiau.
- Cynnal ac esblygu diwylliant cynhwysol o fewn y sefydliad lle mae ein pobl yn gynrychioliadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a phawb yn cael eu gwerthfawrogi, eu trin yn deg, a'u grymuso i ffynnu. Byddwch hefyd yn cefnogi ein pobl i gynnal cydbwysedd bywyd a gwaith a chael y gorau o weithio hybrid.



Gofynion proffesiynol

	Hanfodol
Profiad, Sgiliau a Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth a phrofiad o osod neu gymhwyso rheoleiddio economaidd a chymhelliant, o gefndir economeg, peirianeg, cyllid neu strategaeth a pholisi rheoleiddio; Profiad o osod y cyfeiriad strategol a chyflawni prosiectau sylweddol yn llwyddiannus o fewn cyd-destun rheoleiddio, neu dystiolaeth o'r gallu i wneud hynny gan ddefnyddio crebwyll rhagorol i ysgogi canlyniadau cadarnhaol; Profiad cryf o reoli rhanddeiliaid, sgiliau dylanwadu a chyfathrebu gyda'r gallu i fynd i'r afael â diddordebau sy'n gwrthdaro; Profiad o weithio gyda bwrdd a defnyddio trefniadau llywodraethu yn effeithiol i herio ac esblygu polisiau a phrosesau; Gallu dadansoddol a deallusol cryf, gyda'r gallu i ddadansoddi a chymathu cynigion gwybodaeth/polisi cymhleth yn gyflym; Siaradwr cyhoeddus hyderus gyda sgiliau ysgrifennu rhagorol; Arddull arweinyddiaeth gynhwysol sy'n ysbrydoli, ysgogi a hyrwyddo cydweithio i ddatblygu timau sy'n perfformio'n dda; a Hyrwyddwr rhagweithiol o greadigrwydd, arloesedd, EDI a ffyrdd o weithio.
Nodweddion ac ymddygiad	<ul style="list-style-type: none"> Dysgwr ymroddedig; Meithrin ymddiriedaeth; Hyrwyddwyr ac arweinwyr newid; Gwneud i berthnasoedd gyfrif; Adeiladu'r tîm; Hyrwyddo cydweithio; Meddyliwr hyblyg; Creu eglurder; a Chyflawni canlyniadau

Yn ogystal â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad hanfodol a nodir yn y tabl uchod, byddwn yn eich asesu yn erbyn y priodoleddau canlynol yn ystod y broses ddethol:

Y broses ymgeisio

- Byddwn yn asesu eich CV a'ch llythyr eglurhaol yn erbyn y meini prawf profiad, sgiliau a gwybodaeth hanfodol a restrir yn y tabl uchod.

Cyfweliad a chyflwyniad

- Dysgwr Ymrwymedig
- Meddyliwr hyblyg
- Meithrin ymddiriedaeth
- Hyrwyddwyr ac arweinwyr newid
- Gwneud i berthnasoedd gyfrif
- Adeiladu'r tîm
- Creu eglurder
- Cyflawni canlyniadau
- Hyrwyddo Cydweithio

Darllenwch fwy am ein diffiniadau ar gyfer y priodoleddau hyn yma.

Sut i wneud cais

Mae Saxton Bampfylde Ltd yn gweithredu fel cyngorydd asiantaeth gyflogi i Ofwat ar y penodiad hwn. Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon trwy ein gwefan yn www.saxbam.com/appointments gan ddefnyddio cod **QJUR**

Cliciwch ar y botwm 'gwneud cais' a dilynwch y cyfarwyddiadau i uwchlwytho CV a llythyr eglurhaol a chwblhau'r ffurflen monitro cyfle cyfartal* ar-lein. Dylai eich llythyr eglurhaol amlinellu sut mae eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran gofynion proffesiynol y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Mawrth 14 Chwefror 2023**.

Proses ddethol

Paul Gray, un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, fydd yn cadeirio'r broses. Mae gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil ddwy brif swyddogaeth:

1. Rhoi sicrwydd bod dethol ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Ar gyfer y swyddi uchaf yn y Gwasanaeth Sifil, mae'r Comisiwn yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n uniongyrchol drwy oruchwylio'r broses recriwtio a chan Gomisiynydd sy'n cadeirio'r panel dethol.
2. Gwrando a phenderfynu ar apeliadau a wneir gan weision sifil o dan God y Gwasanaeth Sifil sy'n nodi gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil - Didueddrwydd, Gwrthrychedd, Uniondeb a Gonestrwydd - ac sy'n ffurfio rhan o'r berthynas rhwng gweision sifil a'u cyflogwr.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar wefan Comisiwn y Gwasanaeth Sifil:
<http://civilservicecommission.independent.gov.uk>.

Mae'r panel penodi ar gyfer y broses hon yn cynnwys:

- Iain Coucher – Cadeirydd
- David Black – Prif Weithredwr
- Paul Gray – Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil
- Alison Munro – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Ac yn bresennol: Jasbir Bilal - Cyfarwyddwr Pobl

Byddwn yn ceisio cynnig cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn, ond efallai na fydd yn bosib cynnig dyddiadau eraill ar gyfer asesiadau neu gyfweiliadau. Gofynnir i chi felly nodi'r amserlen isod, gan arfer hyblygrwydd trwy'r broses recriwtio a dethol, er mwyn bodloni'r dyddiadau a roddir.

Ar hyn o bryd mae'r panel yn bwriadu gofyn i restr hir o ymgeiswyr gwrdd â Saxton Bampfylde yn dilyn y cyfarfod rhestr hir ond efallai y bydd yn dewis symud ymlaen yn syth i restr fer ar yr adeg honno. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am y camau nesaf ym mhob achos. Sylwch y gall y dyddiadau canlynol newid.

- Cyfarfod rhestr hir: W/D 20 Chwefror
- Cyfweiliadau gyda Saxton Bampfylde: W/D 27 Chwefror
- Cyfarfod rhestr fer: W/D 6 Mawrth
- Sgyrsiau un-i-un anffurfiol gydag Ofwat: W/D 13 Mawrth
- Asesiadau seicolegol gan gynnwys rhesymu geiriol a rhifiadol: W/D 13 Mawrth
- Ymarfer ymgysylltu â staff: W/D 13 Mawrth
- Cyfweiliadau panel: W/D 20 Mawrth
- Yn ystod y cyfweiliad, bydd Saxton Bampfylde yn gofyn am eiradau ffôn ar gyfer yr ymgeisydd/ymgeiswyr a ffefrir.

Sylwch y cynhelir y cyfweiliad yn ein Swyddfa yn Llundain.

Bydd y broses gyfsweld ar gyfer y swydd hon yn cynnwys cyflwyniad byr. Rhoddir rhagor o fanylion i ymgeiswyr ar y rhestr fer ar wahoddiad i gyfsweliad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar y rôl hon, y broses ddethol, neu os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, e-bostiwrch belinda.beck@saxbam.com

Telerau ac amodau cyflogaeth

Cytundeb

Mae hwn yn benodiad parhaol.

Cyflog

Yr ystod cyflog ar gyfer Uwch Was Sifil Band 2 (SCS2) yw £95,000 - £162,500. Ar gyfer y rôl hon gall ymgeiswyr allanol ennill cyflog cychwynnol o waelod yr ystod i £130,000 gyda hyblygrwydd posib yn dibynnu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Telir cyflog yn fisol trwy drosglwyddiad credyd.

Byddai ymgeiswyr Mewnol a Gwasanaeth Sifil sydd eisoes ar y lefel swydd hon fel arfer yn cadw eu trefniadau cyflog presennol gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn drosglwyddiad lefel. Os ydynt yn gwneud cais am y rôl fel dyrchafiad, gall yr ymgeiswyr hyn fel arfer ddisgwyl cael eu penodi ar gyflog ar waelod y band neu gynydd o 10% i'r cyflog presennol, pa un bynnag sydd fwyaf.

Lleoliad

Lleolir y rôl hon yn ein swyddfa (Llundain neu Birmingham) a hwn fydd eich man gwaith dynodedig gyda theithio rheolaidd rhwng ein swyddfeydd. Ni thelir costau adleoli ar gyfer y rôl hon. Mae gweithwyr Ofwat yn cael y cyfle i weithio hybrid felly byddwch yn cael y cyfle i weithio gartref ac yn y swyddfa. Mae Ofwat yn gyflogwr cynhwysol ac mae gweithio ystwyth yn rhan bwysig o'n diwylliant. Gwyddom fod gweithio ystwyth yn grymuso ein gweithwyr i reoli eu hamser eu hunain, gan feithrin cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a hybu iechyd a lles wrth gynnal cynhyrchiant. Yma yn Ofwat credwn fod treulio amser rheolaidd gyda'n gilydd yn bersonol yn bwysig i gefnogi cydweithredu, adeiladu a chynnal perthnasoedd ag eraill, ac mae'n cefnogi cyflawni canlyniadau busnes Ofwat. Bydd gweithio o'r swyddfa yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio a chysylltiadau wyneb yn wyneb, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a rhwydweithio. Fel aelod o'r UDA bydd disgwyl i chi dreulio amser rheolaidd yn y swyddfa.

Gweithle dan gontract a threuliau trethadwy

Mae CThEM yn ystyried bod gan unrhyw berson sy'n gweithio mwy na dau ddiwrnod y mis yn rheolaidd yn swyddfeydd Birmingham a Llundain, beth bynnag fo'u gweithle dan gontract, ddau weithle parhaol.

Mae talu eich tocyn trê, llety neu gynhaliath yn y sefyllfa hon yn denu treth ac Yswiriant Gwladol oherwydd eich bod yn derbyn budd-dal.

Mae Ofwat yn talu cost y dreth a'r Yswiriant Gwladol drwy gronni eich treuliau ac adennill y swm net drwy eich pecyn cyflog misol. Ond caiff y treuliau eu dosbarthu fel enillion trethadwy, a allai effeithio ar unrhyw atafaelu enillion – er enghraifft, addaliadau benthyciad myfyrwyr, budd-dal plant incwm uchel a budd-daliadau'r wladwriaeth.

Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi dalu costau teithio i leoliad y swyddfa lle nad ydych wedi'ch lleoli.

I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau trethadwy, anfonwch e-bost at payroll@ofwat.gov.uk

Oriau Gwaith

Mae'r swydd hon yn agored i amser llawn (37 awr yr wythnos), rhan amser neu rannu swydd. Bydd gofyn i chi weithio oriau ychwanegol sy'n rhesymol ac yn angenrheidiol i gyflawni'ch dyletswyddau'n effeithlon.

Prawf

Mae cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer pob newydd-ddyfodiaid. Yn amodol ar berfformiad boddhaol, bydd deiliad y swydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad parhaol ar ddiwedd ei gyfnod prawf.

Gwyliau blynyddol

Wrth gael ei benodi bydd gan ddeiliad y swydd hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â 10½ diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint y flwyddyn. Bydd hawl gwyliau blynyddol yn cael ei gynyddu gan un diwrnod ar gyfer pob blwyddyn o gyflogaeth barhaus gydag Ofwat, hyd at uchafswm lwfans gwyliau o 30 diwrnod.

Pensiwn

Ar ôl cael eich penodi, rydych yn gymwys i ymuno â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Gwasanaeth Sifil yn cynnig dewis o fuddion diffiniedig a phensiynau cyfranddeiliaid, gan roi'r hyblygrwydd i chi ddewis y pensiwn sydd fwyaf addas i chi. Rydym yn cynnig dewis o ddau fath o bensiwn i chi.

Alpha

Cynllun pensiwn galwedigaethol yw Alpha ac mae'n darparu buddiant diffiniedig wedi'i weithio allan ar sail Cyfartaledd Gyrfa.

O 1 Ebrill 2020, mae cyfraniadau aelodau yn seiliedig ar gyflogau gwirioneddol.

O 1 Ebrill 2020, cyfraniadau gweithwyr yw:

Cyflog pensiynadwy gwirioneddol (blynyddol)	Pob aelod
Hyd at ac yn cynnwys £22,600	4.60%
£22,601 i £54,900	5.45%
£54,901 i £150,000	7.35%
£150,001 ac uwch	8.05%

O 1 Ebrill 2020, cyfraniadau'r cyflogwr yw:

Band Cyflog Diwygiedig (£)	Cyfradd ASLC o 1 Ebrill 2020
23,000 ac o dan	26.6%
23,001 i 45,500	27.1%
45,501 i 77,000	27.9%
77,001 a throsodd	30.3%

Partneriaeth: pensiwn cyfranddeiliaid yw hwn gyda chyfraniad gan Ofwat. Mae faint rydym yn ei dalu yn seiliedig ar eich oedran. Rydym yn talu hwn p'un a ydych yn dewis cyfrannu unrhyw beth. Nid oes rhaid i chi gyfrannu ond, os gwnewch hynny, byddwn hefyd yn cyfateb i'ch cyfraniadau hyd at 3% o'ch enillion pensiynadwy.

Cyfraniadau cyflogwr ar sail oedran

Oedran ar 6 Ebrill diwethaf	Canran o'ch enillion pensiynadwy
O dan 31	8%
31 i 35	9%
36 i 40	11%
41 i 45	13.5%
46 neu fwy	14.75%

I ddysgu mwy am gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, dilynwch y ddolen <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/>

Buddion Ofwat

Rydym hefyd yn cynnig ystod o fuddion ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynediad at ein pecyn o fuddion drwy ein cynllun 'Edenred'. Mae hwn yn gynllun buddion gwirfoddol lle mae gan staff fynediad i ostyngiadau unigryw ar amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau megis siopau manwerthu, tocynnau theatr, gwyliau, yswiriant ac aelodaeth o gampfa;
- cynllun beicio i'r gwaith;
- benthyciad tocyn tymor ar gyfer teithio rhwng y cartref a'r swyddfa;
- trefniadau gweithio hyblyg;
- ffioedd a delir am aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol;
- datblygiad proffesiynol rheolaidd;
- mentrau iechyd a lles; a
- phrofion llygaid am ddim a chyfraniad at lensys/sbectol ar gyfer defnyddwyr VDU, os yw'n briodol.

Bydd unrhyw symudiad i Ofwat oddi wrth gyflogwr arall yn golygu na allwch gael mynediad i dalebau gofal plant mwyach. Mae hyn yn cynnwys symudiadau rhwng adrannau'r llywodraeth. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer cynlluniau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Gofal Plant Di-dreth. Penderfynwch ar eich cymhwysedd yn <https://www.childcarechoices.gov.uk/>.

Gwiriad diogelwch

Bydd unrhyw gynnig swydd yn amodol ar gwblhau gwiriadau diogelwch a chyn-cyflogaeth yn foddhaol. Mae rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gwirio diogelwch ar gael ar gais.

Cenedligrwydd a rheoli mewnfudo

Mae'r swydd hon yn agored i wladolion gwladwriaethau o fewn y Gymanwlad Brydeinig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a rhai aelodau o'u teuluoedd. Ni ddylai fod unrhyw gyfyngiad cyflogaeth na therfyn amser ar eich arhosiad a ganiateir yn y DU.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Genedligrwydd a Rheoli Mewnfudo, anfonwch e-bost atom yn people@ofwat.gov.uk

Stociau neu gyfrandaliadau

Oherwydd natur yr wybodaeth y byddwch yn dod i gysylltiad â hi a'r angen i fod yn gwbl annibynnol o'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, byddwch chi a'ch teulu (gan gynnwys eich priod neu bartner sifil ac unrhyw blant neu lysblant o dan 18 oed sy'n dal i fyw gartref, neu unrhyw aelod arall o'ch cartref) yn cael eu hatal rhag bod yn berchen ar, prynu neu ddelio â chyfrandaliadau'r cwmnïau dŵr a'u cwmnïau daliannol.

Gwybodaeth bellach

Diogelu Data

Byddwn yn defnyddio'ch cais i lywio'r broses ddethol yn unig. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yn sail i'ch cofnod gweithiwr personol gyda ni, a byddwn yn ei storio'n electronig o fewn ein System Rheoli Dogfennau Electronig SharePoint (EDRMS) a'n system AD iTrent. Nid yw ceisiadau aflwyddiannus yn cael eu cadw a byddant yn cael

eu dinistrio gan ddefnyddio dulliau gwaredu diogel Ofwat. Os ydych wedi nodi yr hoffech i Ofwat gadw eich gwybodaeth ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth tebyg yn y dyfodol, byddwn yn cadw'r wybodaeth hon. Os byddwch yn penderfynu ar unrhyw adeg nad ydych yn dymuno i Ofwat gadw eich gwybodaeth at y dibenion hyn, cysylltwch â ni a byddwn yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei thynnu oddi ar ein systemau oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w chadw am gyfnod pellach.

Byddwn yn cadw unrhyw ddata amdanoch mewn amodau cwbl ddiogel a gyda mynediad cyfyngedig. Darperir gwybodaeth ar ffurf ystadegol am weithwyr presennol a chyn-weithwyr mewn rhai achosion i gyrff allanol priodol. Lle bynnag y bo modd, mae Ofwat yn sicrhau bod gwybodaeth ystadegol yn ddienw.

Byddwn yn cynnwys data a ddarperir gennych ar y ffurflen monitro amrywiaeth mewn cronfa ddata gyffredinol at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro effeithiolrwydd ein polisi ar gyfle cyfartal mewn cyflogaeth.

Mae Ofwat yn prosesu'r holl ddata personol a ddarparwyd gennych yn ystod eich cais fel y nodir ym mholisi preifatrwydd Ofwat sydd ar gael yma: <https://www.ofwat.gov.uk/publication/privacy-policy/>. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch prosesu rhywfaint neu'r cyfan o'ch data, rhowch wybod i The People Hub yn ysgrifenedig at people@ofwat.gsi.gov.uk a/neu'r Swyddog Diogelu Data drwy anfon e-bost at FOI@ofwat.gsi.gov.uk.

Treuliau

Byddwn yn ad-dalu costau teithio ar gyfradd pris tocyn trêen safonol ar gyfer y daith neu gyfraddau milltired modur (ceir: 25c y filltir). Sylwch y bydd angen prawf prynu ar gyfer holl gostau trafndiaeth gyhoeddus.

Amrywiaeth

Nod Ofwat yw bod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydym yn bwriadu gwneud yn siŵr bod cyfle cyfartal a thriniaeth deg i bawb, heb ystyried:

- oedran;
- anabled;
- newid rhyw;
- statws priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil, crefydd neu gred; neu
- ryw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Hoffem eich sicrhau y byddwn yn trin yr wybodaeth a roddwch ar y ffurflen monitro amrywiaeth yn gwbl gyfrinachol. Nid yw'r wybodaeth hon yn chwarae unrhyw ran yn ein proses ddethol.

Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) – Arian

Mae gan Ofwat achrediad BmP sy'n adlewyrchu arferion rheoli da ar draws ein sefydliad, gan gynnwys mewn cynllunio busnes, gosod amcanion unigol, cyfleoedd

dysgu a datblygu, yn ogystal ag adborth adeiladol parhaus trwy ein darpariaeth a'n datblygiad.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Fel rhan o'r cynllun hyderus o ran anabledd, rydym yn gwarantu cyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol.



Trefn gwyno

Mae'r broses recriwtio ac asesu yn croesawu egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac arfer gorau. Y cyntaf yw cynnal yr egwyddor o ddethol ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil ar sail teilyngdod gyda chystadleuaeth deg ac agored fel yr amlinellir yn **Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil**. Yr ail yw hybu dealltwriaeth o **God y Gwasanaeth Sifil** sy'n nodi'r fframwaith cyfansoddiadol y mae pob gwas sifil yn gweithio ynddo a'r gwerthoedd y disgwylir iddynt eu cynnal, a gwrando a phenderfynu ar apeliadau a wneir o dano.

Os teimlwch nad yw'ch cais wedi'i drin yn unol â'r egwyddorion recriwtio a'ch bod yn dymuno gwneud cwyn, dylech gysylltu â Ruth Noake, Pennaeth Talent a Datblygu Sefydliadol, Galluogwyr Corfforaethol (Pobl), Ofwat, Center City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb a gewch gennym, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn info@csc.gov.uk.



Ofwat
Centre City Tower 7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-license/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o'n gwefan yn: www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: : mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL

Saxton Bampfylde

LLUNDAIN

9 Savoy Street
London WC2E 7EG

CAEREDIN

46 Melville Street
Edinburgh EH3 7HF

OFWAT | UWCH GYFARWYDDWR – ADOLYGIAD PRISIAU

saxbam.com

Partners in **Panorama** - Chwiliwch o gwmpas y byd

